**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2018 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | J P Curtice | N J Davies |
| C R Doyle | M Durke | V M Evans |
| C R Evans | W Evans | E W Fitzgerald |
| R Francis-Davies | L S Gibbard | F M Gordon |
| K M Griffiths | J A Hale | D W Helliwell |
| T J Hennegan | C A Holley | P R Hood-Williams |
| B Hopkins | O G James | L James |
| Y V Jardine | M H Jones | P K Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M A Langstone | W G Lewis | C E Lloyd |
| P Lloyd | I E Mann | P M Matthews |
| P N May | H M Morris | C L Philpott |
| S Pritchard | A Pugh | J A Raynor |
| K M Roberts | B J Rowlands | M Sherwood |
| P B Smith | R V Smith | A H Stevens |
| R C Stewart | D G Sullivan | M Sykes |
| W G Thomas | M Thomas | L J Tyler-Lloyd |
| G D Walker | L V Walton | T M White |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, A M Day, P Downing, S J Gallagher, D H Hopkins, S M Jones, L R Jones, M B Lewis, A S Lewis, D Phillips, C Richards, G J Tanner a/ac L G Thomas

---

## 148. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gyswllt i'w ddatgan. Nid oedd angen dychwelyd ffurflenni os nad oedd unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gyswllt ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J P Curtice gyswllt personol â Chofnod 156 "Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2019/20 i 2021/22";

2) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, J P Curtice, C R Doyle, M Durke, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, L S Gibbard, K M Griffiths, P R Hood-Williams, C A Holley, B Hopkins, L James, O G James, J W Jones, M H Jones, P K Jones, E J King, E T Kirchner, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, P M Matthews, A Pugh, S Pritchard, J A Raynor, K M Roberts, M Sherwood, P B Smith, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, M Sykes, M Thomas, W G Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walton a T M White gyswllt personol â Chofnod 157 "Cyllideb Refeniw 2018/19";

3) Datganodd y Cynghorydd M C Child gyswllt personol â Chofnod 157 "Cyllideb Refeniw 2018/19". Rhoddwyd goddefeb i'r Cynghorydd Mark C Child gan y Pwyllgor Safonau i arfer pŵerau gweithredol, aros, siarad, pleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion;

4) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, J P Curtice, C R Doyle, M Durke, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, L S Gibbard, K M Griffiths, C A Holley, B Hopkins, O G James, M H Jones, P K Jones, E J King, E T Kirchner, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, P M Matthews, A Pugh, S Pritchard, J A Raynor, K M Roberts, M Sherwood, P B Smith, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, M Sykes, M Thomas, W G Thomas, L V Walton a T M White gyswllt personol â Chofnod 159 "Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2017/18-2023/24";

5) Datganodd y Cynghorydd M C Child gyswllt personol â Chofnod 159 Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2017/18-2023/24"; Rhoddwyd goddefeb i'r Cynghorydd Mark C Child gan y Pwyllgor Safonau i arfer pŵerau gweithredol, aros, siarad, pleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion;

6) Datganodd y Cynghorwyr J P Curtice a T J Hennegan gyswllt personol â Chofnod 160 "Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darparu Lleiafswm Refeniw 2018/19";

7) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gyswllt personol â Chofnod 161 "Cyllideb Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2018/19;

8) Datganodd y Cynghorydd C Anderson gyswllt personol a rhagfarnol â Chofnod 161 "Cyllideb Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2018/19 a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried;

9) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gyswllt personol â Chofnod 162 "Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2017/18-2020/21";

10) Datganodd y Cynghorwyr W Evans, E W Fitzgerald, K M Griffiths, L James,P R Hood-Williams, J W Jones, M H Jones, K M Roberts, R V Smith, A H Stevens, M Thomas, W G Thomas, L J Tyler-Lloyd, a G D Walker gyswllt personol â Chofnod 163 "Penderfyniad Statudol - Penderfyniadau i'w gwneud yn unol â Rheoliadau Pennu Treth y Cyngor 2018/19";

11) Datganodd y Cynghorydd L James gyswllt personol a rhagfarnol â Chofnod 165 "Penodi Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried;

12) Datganodd y Cynghorwyr J E Burtonshaw, E T Kirchner a P Lloyd gyswllt personol â Chofnod 166 "Enwebu Darpar Arglwydd Faer a Dirprwy Ddarpar Arglwydd Faer ar gyfer 2018-2019";

13) Datganodd y Cynghorwyr P M Black, C A Holley, J W Jones ac M H Jones gyswllt personol a rhagfarnol â Chofnod 166 "Enwebu Darpar Arglwydd Faer a Dirprwy Ddarpar Arglwydd Faer ar gyfer 2018-2019" a gadawsant y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried;

## 149. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2018.

## 150. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y cyngor.

## 151. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Cydymdeimladau

### a) Y Cyn-Faeres, Averil Hare

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-Faeres Averil Hare. Roedd hi'n wraig i'r Cyn-Gynghorydd a Chyn-Faer Dinas Abertawe ym 1971 sef Ken Hare.

### b) Y Cyn-Gynghorydd Denzil Richard (Dick) Phillips

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-Gynghorydd a'r Cyn-Ddirprwy Arglwydd Faer, Dick Phillips. Bu'r Cyn-Gynghorydd Phillips yn gwasanaethu wardiau San Helen ac Uplands

ar hen Gyngor Sir Abertawe o 3 Mai 1979 i 31 Mawrth 1996. Roedd yn Ddirprwy Arglwydd Faer yn 1995-1996.

**c) Cyn-Glerc Sirol Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg - Michael Rush**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Cyn-Glerc Sirol Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg, Michael Rush. Bu'n gwasanaethu o 1974 tan 1990.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**2) Diwrnod Rhyngwladol Menywod**

Nododd yr Aelod Llywyddol fod Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8 Mawrth. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn ddiwrnod byd-eang i ddathlu cyflawniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod. Mae'r diwrnod hefyd yn nodi galwad i weithredu er mwyn cyflymu cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Thema eleni yw "Pwyso am Gynnydd" ac i ni yng Nghyngor Abertawe mae hyn yn golygu dathlu pa mor bell rydym wedi dod gan gydnabod bod tipyn o ffordd i fynd o hyd nes cyflawni cydraddoldeb rhyw a mathau eraill o gydraddoldeb.

Mae gan Gyngor Abertawe gydbwysedd rhyw llawer gwell na bron pob un o'r cynghorau eraill yng Nghymru ar lefel uwch-reolwr, lle mae 50% o Dîm y Cyfarwyddwr a 44% o'r Tîm Arweinyddiaeth yn fenywod. Mae hyn yn wir hefyd gyda'n cynghorwyr lle mae 42% ohonynt yn fenywod.

Gwahoddodd yr holl staff a chynghorwyr i ddigwyddiad arbennig am 1.00pm ddydd Iau, 8 Mawrth 2018 yn Siambr y Cyngor y Ganolfan Ddinesig lle bydd Dr Alys Einon o Brifysgol Abertawe yn siarad am stereoteipio rhywiau yn y gweithle.

**3) Newidiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor**

**a) Diwygiadau i'r Gyllideb**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Grŵp Gwleidyddol y Democratiaid Rhyddfrydol/Gwrthbleidiau Annibynnol wedi cyflwyno diwygiadau cyllidebol yn ymwneud ag Eitemau 10 ac 11. Roedd copi o'r diwygiadau hyn wedi'u cylchredeg.

**b) Eitem 20 "Dyddiadur y Cynghorwyr 2018-2019”**

Nododd yr Aelod Llywyddol y gwneir y diwygiadau canlynol i'r adroddiad.

i) **Dileu** Trefnir i'r cyngor gwrdd am 17:00 ar 27 Medi 2018
**Ychwanegu** Bydd y cyngor yn cwrdd am 17:00 ar 20 Medi 2018.

ii) **Dileu** Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd am 17:00 ar 16 Hydref 2018.
**Ychwanegu** Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd am 17:00 ar 9 Hydref 2018.

iii) **Dileu** Bydd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu yn cwrdd am 16:00 ar 14 Mehefin, 12 Gorffennaf, 9 Awst, 13 Medi, 11 Hydref, 8 Tachwedd, 13 Rhagfyr 2018 a 10 Ionawr, 14 Chwefror, 14 Mawrth, 11 Ebrill 2019.
**Ychwanegu** Bydd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu yn cwrdd am 16:00 ar 20 Mehefin, 18 Gorffennaf, 15 Awst, 19 Medi, 17 Hydref, 7 Tachwedd, 12 Rhagfyr 2018 ac 16 Ionawr, 20 Chwefror, 20 Mawrth, 17 Ebrill 2019.

iv) **Dileu** Bydd Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr yn cwrdd am 19:00 ar 17 Rhagfyr 2018.
**Ychwanegu** Bydd Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr yn cwrdd am 19:00 ar 3 Rhagfyr 2018.

## 152. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Cynnig Stadiwm Liberty

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor y diweddaraf ar gynnydd cynnig Stadiwm Liberty. Dywedodd y byddai'r awdurdod yn derbyn:

1) Rhent craidd o £300,000 y flwyddyn;
2) Cyfran o'r nawdd a'r hawliau enwi;
3) Cyfraniad at gyfleusterau chwarae ar draws y Ddinas a'r Sir

### 2) Y Diweddaraf am y Fargen Ddinesig

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor y diweddaraf i'r cyngor am gynnydd y Fargen Ddinesig.

### 3) Gweithredu yn sgîl y Tywydd Oer a Diolchiadau

Diolchodd yr Aelod Llywyddol i'r holl staff a oedd wedi mynd gam ymhellach yn yr ychydig ddiwrnodau diwethaf i sicrhau bod y ddinas yn gweithredu yn ystod yr amodau rhewllyd. Rhoddodd ddiolch arbennig i staff yr adran priffyrdd am gadw'r traffig i symud. Gwerthfawrogwyd eu gwaith gan Swyddogion a Chynghorwyr ar draws y cyngor yn ogystal â phreswylwyr, ysbytai a busnesau.

Dywedodd ei fod yn ymwybodol bod y timau gofal cymdeithasol wedi wynebu heriau arbennig a bod yr awdurdod yn ddyledus iddynt am eu hymrwymiad a'u gofal.

Gorffennodd drwy ddiolch i'r ysgolion a arhosodd ar agor am gyhyd â phosib.

**153. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**154. Cyflwyniad Cyhoeddus - Dim.**

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus

**155. Technical and Budget Presentation**

Rhoddodd Swyddog Adran 151 gyflwyniad technegol am y 4 adroddiad cyllidebol canlynol:

i) Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2019-2020 i 2021-2022;
ii) Cyllideb Refeniw 2018-2019;
iii) Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2017-2018 i 2023-2024;
Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2018/2019.

Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol i Swyddog Adran 151. Ymatebodd Swyddog Adran 151.

Yn dilyn cwestiynau technegol, rhoddodd Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet drosolwg gwleidyddol cyffredinol o'r sefyllfa gyllidebol ac yna cafwyd cyflwyniad gwleidyddol am y 4 adroddiad cyllidebol y'u crybwyllwyd uchod. Yn ogystal, rhoddodd Aelodau perthnasol y Cabinet gyflwyniadau'n ymwneud â'u portffolios.

Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau i Arweinydd y Cyngor. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor ac Aelodau perthnasol y Cabinet.

**156. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2019/20-2021/22.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a manylodd ar y tybiaethau ariannu mawr ar gyfer y cyfnod, gan gynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019-2020 a 2021-2022 fel sail i gynllunio ariannol ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol.

**157. Cyllideb Refeniw 2018/19.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig ardoll Cyllideb Refeniw a Threth y Cyngor ar gyfer 2018-2019.

Dywedodd Swyddog Adran 151 fod Grwpiau Gwleidyddol y Democratiaid Rhyddfrydol/Gwrthbleidiau Annibynnol.

**Diwygiad 1**

Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd Peter Black.  Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd C A Holley. Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*"Cyllideb Refeniw'r Gronfa Gyffredinol*

*Dileu'n llawn gyflwyno taliadau ar gyfer canolfannau dydd i bobl hŷn ac oedolion ag anghenion arbennig (£250,000) ac ailgyflwyno'r £40,000 ar gyfer is-ddarpariaeth clybiau ieuenctid yn Gendros, Montana, Treforys, St Thomas a Friendship House. Caiff y gost net, sef £290,000, ei hariannu drwy sicrhau £266,000 ychwanegol yn 2018-19 ar gyfer cyllidebau staffio'r ddarpariaeth swyddi gwag gyffredinol - 1.16% effeithiol (yr un lefel ag a gyflawnwyd ar gyfer 2017-18) - a defnyddio £24,000 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn."*

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd pleidleisio ar y mater.  Ni chefnogwyd y diwygiad ac felly datganwyd bod y bleidlais wedi'i cholli.  Ni ddaeth y diwygiad yn rhan o'r cynnig annibynnol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cyllideb Refeniw ar gyfer 2018-2019 fel a fanylwyd yn Atodiad A yr adroddiad;

2) Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2018-2019 fel a nodwyd yn Adran 9 yr adroddiad.

## 158. Gohirio Cyfarfod

Gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud o egwyl.

## 159. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/19-2021/22.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2017-2018 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2018-2019 i 2021-2022 (2023-2024 ar gyfer ysgolion Band B).

Dywedodd Swyddog Adran 151 fod Grwpiau Gwleidyddol y Democratiaid Rhyddfrydol/Gwrthbleidiau Annibynnol.

**Diwygiad 1**

Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd Peter Black.  Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd C A Holley.  Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*"Cyllideb Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol*

*Yng nghyllideb gyfalaf y Gronfa Gyffredinol, gohirio'r £200,000 ar gyfer Adleoli'r Ganolfan Ddinesig a'r £250,000 ar gyfer Cronfa Wrth Gefn y Ganolfan Ddinesig tan 2019-20, ac adleoli'r £450,000 a ryddhawyd ar gyfer 2018/19 er mwyn gwneud*

*gwaith cynnal a chadw ychwanegol ar ffyrdd a phalmentydd. Ystyried rhaglen gyfalaf gynyddol gyffredinol 2019-20 sef £450,000 a'r ariannu cyfalaf ar ei chyfer (drwy fenthyca cynyddol nas cefnogir) fel rhan o bennu cyllideb refeniw 2019-20".*

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd pleidleisio ar y mater. Ni chefnogwyd y diwygiad ac felly datganwyd bod y bleidlais wedi'i cholli. Ni ddaeth y diwygiad yn rhan o'r cynnig annibynnol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig 2017-2018 a Chyllideb Gyfalaf 2018-2019 i 2023-2024 fel a fanylwyd yn Atodiadau A, B, C, Ch a D yr adroddiad.

## 160. Datganiad Polisi am Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Cynghorus, y Strategaeth Buddsoddi a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar Gyfer 2018/19.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn argymell Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2018-2019.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus (Adrannau 2-7 yr adroddiad);

2) Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi (Adran 8 yr adroddiad);

3) Cymeradwyo'r Datganiad Darparu Lleiafswm Refeniw (MRP) (Adran 9 yr adroddiad).

## 161. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cyllideb Refeniw 2018/19.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2018-2019 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd:**

1) Cynyddu taliadau rhent yn unol â pholisi rhenti Llywodraeth Cymru fel y nodwyd yn Adran 3 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo'r ffioedd, y taliadau a'r lwfansau fel yr amlinellwyd yn Adran 3 yr adroddiad;

3) Cymeradwyo'r cynigion cyllideb refeniw fel y nodwyd yn Adran 3 yr adroddiad.

## 162. Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/19-2021/22.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2017-2018 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2018-2019 a 2020-2021.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2017-2018;

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2018-2019 a 2020-2021;

3) Lle caiff cynlluniau unigol Atodiad B yr adroddiad eu rhaglenni dros y cyfnod 3 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad, caiff y rhain eu dilyn a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y blynyddoedd dilynol.

**163. Penderfyniad Statudol - Dylid Gwneud Penderfyniadau yn unol â'r Rheoliadau wrth Bennu Treth y Cyngor ar Gyfer 2018/19.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu nifer o ddatrysiadau statudol i'w gwneud yn unol â'r Rheoliadau o ran gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd:**

1) Y bydd y cyngor yn cofnodi ac yn mabwysiadu'r datrysiadau statudol a amlinellir isod;

2) Nodi bod y cyngor, yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2017, wedi cyfrifo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2018-2019 yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd):

a) 89,962 oedd y cyfanswm a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, fel ei sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn;

b) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---|
| Llandeilo Ferwallt | 1,961 |
| Clydach | 2,622 |
| Gorseinon | 3,179 |
| Tregŵyr | 1,953 |
| Pengelli | 412 |
| Llanilltud Gŵyr | 323 |
| Cilâ | 2,113 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 494 |
| Llangyfelach | 947 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,592 |
| Llanrhidian Isaf | 328 |
| Llwchwr | 3,400 |
| Mawr | 745 |
| y Mwmbwls | 9,694 |
| Penllergaer | 1,366 |

| | |
|---|---|
| Pennard | 1,459 |
| Penrhys | 419 |
| Pontarddulais | 2,281 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,031 |
| Porth Einon | 435 |
| Reynoldston | 292 |
| Rhosili | 188 |
| Y Crwys | 711 |
| Cilâ Uchaf | 572 |

Dyma'r symiau a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau ei Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt;

3) Caiff y symiau canlynol eu cyfrifo bellach gan y cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018-2019 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

a) £704,151,216 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(2)(a) i (d) y Ddeddf;

b) £269,932,090 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(3)(a), 32(3)(c) a 32(3a) y Ddeddf;

c) £434,219,126 yw'r gwahaniaeth rhwng y cyfanswm yn 3(a) uchod a'r cyfanswm yn 3(b) uchod, ac mae'n swm a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn;

ch) £318,687,205 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy i Gronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, a'r Grant Cynnal Refeniw heb gymorth trethi annomestig dewisol;

d) £1,284.23 yw'r swm yn (3)(c) heb y swm yn (3)(d) uchod, wedi'i rannu gan y swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn;

dd) £1,402,726 yw cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf;

e) £1,268.64 yw'r swm yn (3)(e) heb y canlyniad a roddir trwy rannu'r swm yn (3)(f) uchod â'r swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitemau arbennig yn berthnasol iddynt;

f) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---|
| Llandeilo Ferwallt | 1,291.59 |
| Clydach | 1,307.28 |
| Gorseinon | 1,298.64 |

| | |
|---|---|
| Tre-gŵyr | 1,286.00 |
| Pengelli a Waungron | 1,283.93 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,280.64 |
| Cilâ | 1,278.11 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,283.32 |
| Llangyfelach | 1,293.98 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,327.74 |
| Llanrhidian Isaf | 1,277.79 |
| Llwchwr | 1,293.14 |
| Mawr | 1,351.19 |
| Y Mwmbwls | 1,323.51 |
| Penllergaer | 1,279.62 |
| Pennard | 1,321.42 |
| Penrhys | 1,292.51 |
| Pontarddulais | 1,306.78 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,303.64 |
| Porth Einon | 1,281.28 |
| Reynoldston | 1,302.89 |
| Rhosili | 1,286.19 |
| Y Crwys | 1,310.88 |
| Cilâ Uchaf | 1,300.11 |

Dyma'r symiau a roddwyd trwy adio'r swm yn (3)(e) uchod a symiau'r eitemau arbennig sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y cyngor a nodwyd uchod, sydd wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (2)(b) uchod, a'u cyfrifo gan y cyngor yn unol ag Adran 34 (3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i anheddau yn rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt;

i) Rhannau o ardal y cyngor:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 861.06 | 1,004.57 | 1,148.08 | 1,291.59 | 1,578.61 | 1,865.63 | 2,152.65 | 2,583.18 | 3,013.71 |
| Clydach | 871.52 | 1,016.77 | 1,162.03 | 1,307.28 | 1,597.79 | 1,888.29 | 2,178.80 | 2,614.56 | 3,050.32 |
| Gorseinon | 865.76 | 1,010.05 | 1,154.35 | 1,298.64 | 1,587.23 | 1,875.81 | 2,164.40 | 2,597.28 | 3,030.16 |
| Tre-gŵyr | 857.33 | 1,000.22 | 1,143.11 | 1,286.00 | 1,571.78 | 1,857.56 | 2,143.33 | 2,572.00 | 3,000.67 |
| Pengelli a Waungron | 855.95 | 998.61 | 1,141.27 | 1,283.93 | 1,569.25 | 1.854.57 | 2,139.88 | 2,567.86 | 2,995.84 |
| Llanilltud Gŵyr | 853.76 | 996.05 | 1,138.35 | 1,280.64 | 1,565.23 | 1,849.81 | 2,134.40 | 2,561.28 | 2,988.16 |
| Cilâ | 852.07 | 994.09 | 1,136.10 | 1,278.11 | 1,562.13 | 1,846.16 | 2,130.18 | 2,556.22 | 2,982.26 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 855.55 | 998.14 | 1,140.73 | 1,283.32 | 1,568.50 | 1,853.68 | 2,138.87 | 2,566.64 | 2,994.41 |
| Llangyfelach | 862.65 | 1,006.43 | 1,150.20 | 1,293.98 | 1,581.53 | 1,869.08 | 2,156.63 | 2,587.96 | 3,019.29 |
| Llanrhidian Uchaf | 885.16 | 1,032.69 | 1,180.21 | 1,327.74 | 1,622.79 | 1,917.85 | 2,212.90 | 2,655.48 | 3,098.06 |
| Llanrhidian Isaf | 851.86 | 993.84 | 1,135.81 | 1,277.79 | 1,561.74 | 1,845.70 | 2,129.65 | 2,555.58 | 2,981.51 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwchwr | 862.09 | 1,005.78 | 1,149.46 | 1,293.14 | 1,580.50 | 1,867.87 | 2,155.23 | 2,586.28 | 3,017.33 |
| Mawr | 900.79 | 1,050.93 | 1,201.06 | 1,351.19 | 1,651.45 | 1,951.72 | 2,251.98 | 2,702.38 | 3,152.78 |
| Y Mwmbwls | 882.34 | 1,029.40 | 1,176.45 | 1,323.51 | 1,617.62 | 1,911.74 | 2,205.85 | 2,647.02 | 3,088.19 |
| Penllergaer | 853.08 | 995.26 | 1,137.44 | 1,279.62 | 1,563.98 | 1,848.34 | 2,132.70 | 2,559.24 | 2,985.78 |
| Pennard | 880.95 | 1,027.77 | 1,174.60 | 1,321.42 | 1,615.07 | 1,908.72 | 2,202.37 | 2,642.84 | 3,083.31 |
| Penrhys | 861.67 | 1,005.29 | 1,148.90 | 1,292.51 | 1,579.73 | 1,866.96 | 2,154.18 | 2,585.02 | 3,015.86 |
| Pontarddulais | 871.19 | 1,016.38 | 1,161.58 | 1,306.78 | 1,597.18 | 1,887.57 | 2,177.97 | 2,613.56 | 3,049.15 |
| Pontlliw a Thircoed | 869.09 | 1,013.94 | 1,158.79 | 1,303.64 | 1,593.34 | 1,883.04 | 2,172.73 | 2,607.28 | 3,041.83 |
| Porth Einon | 854.19 | 996.55 | 1,138.92 | 1,281.28 | 1,566.01 | 1,850.74 | 2,135.47 | 2,562.56 | 2,989.65 |
| Reynoldston | 868.59 | 1,013.36 | 1,158.12 | 1,302.89 | 1,592.42 | 1,881.95 | 2,171.48 | 2,605.78 | 3,040.08 |
| Rhosili | 857.46 | 1,000.37 | 1,143.28 | 1,286.19 | 1,572.01 | 1,857.83 | 2,143.65 | 2,572.38 | 3,001.11 |
| Y Crwys | 873.92 | 1,019.57 | 1,165.23 | 1,310.88 | 1,602.19 | 1,893.49 | 2,184.80 | 2,621.76 | 3,058.72 |
| Cilâ Uchaf | 866.74 | 1,011.20 | 1,155.65 | 1,300.11 | 1,589.02 | 1,877.94 | 2,166.85 | 2,600.22 | 3,033.59 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 845.76 | 986.72 | 1,127.68 | 1,268.64 | 1,550.56 | 1,832.48 | 2,114.40 | 2,537.28 | 2,960.16 |

Dyma'r symiau a gyfrifwyd drwy luosi'r symiau yn (3)(e) a (3)(f) uchod â'r nifer sydd, yn ôl cyfanswm y boblogaeth a nodwyd yn Adran 5 (1) Y Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrir mewn band prisio penodol, wedi'u rhannu â'r nifer sydd, yn y gyfran honno, yn gymwys i anheddau a restrir ym mand CH a gyfrifir gan y cyngor yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau'r anheddau a restrir yn y bandiau prisio gwahanol;

4) Dylid nodi bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi nodi'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2018-2019 mewn preseptau a gyflwynwyd i'r cyngor yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | 155.68 | 181.63 | 207.57 | 233.52 | 285.41 | 337.31 | 389.20 | 467.04 | 544.88 |

5) Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (3)(ff) a (4) uchod, mae'r cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth leol 1992, yn gosod, trwy hyn, y symiau canlynol fel y symiau Treth y Cyngor ar gyfer 2018-2019 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a gaiff eu dangos isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 1,016.74 | 1,186.20 | 1,355.65 | 1,525.11 | 1,864.02 | 2,202.94 | 2,541.85 | 3,050.22 | 3,558.59 |
| Clydach | 1,027.20 | 1,198.40 | 1,369.60 | 1,540.80 | 1,883.20 | 2,225.60 | 2,568.00 | 3,081.60 | 3,595.20 |
| Gorseinon | 1,021.44 | 1,191.68 | 1,361.92 | 1,532.16 | 1,872.64 | 2,213.12 | 2,553.60 | 3,064.32 | 3,575.04 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tre-gŵyr | 1,013.01 | 1,181.85 | 1,350.68 | 1,519.52 | 1,857.19 | 2,194.87 | 2,523.53 | 3,039.04 | 3,545.55 |
| Pengelli a Waungron | 1,011.63 | 1,180.24 | 1,348.84 | 1,517.45 | 1,854.66 | 2,191.88 | 2,529.08 | 3,034.90 | 3,540.72 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,009.44 | 1,177.68 | 1,345.92 | 1,514.16 | 1,850.64 | 2,187.12 | 2,523.60 | 3,028.32 | 3,533.04 |
| Cilâ | 1,007.75 | 1,175.72 | 1,343.67 | 1,511.63 | 1,847.54 | 2,183.47 | 2,519.38 | 3,023.26 | 3,527.14 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,011.23 | 1,179.77 | 1,348.30 | 1,516.84 | 1,853.91 | 2,190.99 | 2,528.07 | 3,033.68 | 3,539.29 |
| Llangyfelach | 1,018.33 | 1,188.06 | 1,357.77 | 1,527.50 | 1,866.94 | 2,206.39 | 2,545.83 | 3,055.00 | 3,546.17 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,040.84 | 1,214.32 | 1,387.78 | 1,561.26 | 1,908.20 | 2,255.16 | 2,602.10 | 3,122.52 | 3,642.94 |
| Llanrhidian Isaf | 1,007.54 | 1,175.47 | 1,343.38 | 1,511.31 | 1,847.15 | 2,183.01 | 2,518.85 | 3,022.62 | 3,526.39 |
| Llwchwr | 1,017.77 | 1,187.41 | 1,357.03 | 1,526.66 | 1,865.91 | 2,205.18 | 2,544.43 | 3,053.32 | 3,562.21 |
| Mawr | 1,056.47 | 1,232.56 | 1,408.63 | 1,584.71 | 1,936.86 | 2,289.03 | 2,641.18 | 3,169.42 | 3,697.66 |
| y Mwmbwls | 1,038.02 | 1,211.03 | 1,384.02 | 1,557.03 | 1,903.03 | 2,249.05 | 2,595.05 | 3,114.06 | 3,633.07 |
| Penllergaer | 1,008.76 | 1,176.89 | 1,345.01 | 1,513.14 | 1,849.39 | 2,185.65 | 2,521.90 | 3,026.28 | 3,530.66 |
| Pennard | 1,036.63 | 1,209.40 | 1,382.17 | 1,554.94 | 1,900.48 | 2,246.03 | 2,591.57 | 3,109.88 | 3,628.19 |
| Penrhys | 1,017.35 | 1,186.92 | 1,356.47 | 1,526.03 | 1,865.14 | 2,204.27 | 2,543.38 | 3,052.06 | 3,560.74 |
| Pontarddulais | 1,026.87 | 1,198.01 | 1,369.15 | 1,540.30 | 1,882.59 | 2,224.88 | 2,567.17 | 3,080.60 | 3,594.03 |
| Pontlliw | 1,024.77 | 1,195.57 | 1,366.36 | 1,537.16 | 1,878.75 | 2,220.35 | 2,561.93 | 3,074.32 | 3,586.71 |
| Porth Einon | 1,009.87 | 1,178.18 | 1,346.49 | 1,514.80 | 1,851.42 | 2,188.05 | 2,524.67 | 3,029.60 | 3,534.53 |
| Reynoldston | 1,024.27 | 1,194.99 | 1,365.69 | 1,536.41 | 1,877.83 | 2,219.26 | 2,560.68 | 3,072.82 | 3,584.96 |
| Rhosili | 1,013.14 | 1,182.00 | 1,350.85 | 1,519.71 | 1,857.42 | 2,195.14 | 2,532.85 | 3,039.42 | 3,545.99 |
| Y Crwys | 1,029.60 | 1,201.20 | 1,372.80 | 1,544.40 | 1,887.60 | 2,230.80 | 2,574.00 | 3,088.80 | 3,603.60 |
| Cilâ Uchaf | 1,022.42 | 1,192.83 | 1,363.22 | 1,533.63 | 1,874.43 | 2,215.25 | 2,556.05 | 3,067.26 | 3,578.47 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 1,001.44 | 1,168.35 | 1,335.25 | 1,502.16 | 1,835.97 | 2,169.79 | 2,503.60 | 3,004.32 | 3,505.04 |

## 164. Rheoli'r Trysorlys - flwyddyn Interim adolygiad adroddiad 2017/18.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu Adroddiad Adolygu Blynyddol Dros Dro Rheoli'r Drysorfa 2017-2018.

## 165. Penodi Person Lleyg ar y Pwyllgor Archwilio.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2018. Yr argymhelliad oedd penodi Paula O'Connor yn Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Cynigiodd Swyddog Adran 151 ddiwygio dyddiad dechau Paula O'Connor i 6 Mawrth 2018.

**Penderfynwyd:**

1) Penodi Paula O'Connor yn Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio o 6 Mawrth 2018;

2) Y bydd ei chyfnod yn y swydd yn dod i ben yn yr etholiadau llywodraeth leol, y disgwylir iddynt gael eu cynnal ym mis Mai 2022.

## 166. Enwebu'r Darpar Arglwydd Faer a'r Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer ar gyfer 2017-2018

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn ceisio enwebu Darpar Arglwydd Faer a Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer 2018-2019 er mwyn caniatáu i drefniadau digwyddiad Urddo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer fynd yn eu blaen.

**Penderfynwyd:**

1) Enwebu'r Cynghorydd David Phillips yn Ddarpar Arglwydd Faer ar gyfer 2018-2019;

2) Enwebu'r Cynghorydd Peter M Black yn Ddarpar Ddirprwy Arglwydd Faer ar gyfer 2018-2019;

## 167. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r meysydd canlynol o Gyfansoddiad y Cyngor:

i) Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau", "Gweithdrefn Penodi Llywodraethwyr (ALl) yr Awdurdod Lleol"

Mabwysiadwyd Gweithdrefn Penodi Llywodraethwyr (ALl) yr Awdurdod Lleol gan y cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2017 a'i ychwanegu at Ran 4 "Rheolau Gweithdrefnau" cyfansoddiad y cyngor. Mae paragraff 1 y weithdrefn yn hir, ac er mwyn osgoi dyblygu'r paragraff hwnnw ar bob achlysur, mae angen Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol; cynigir diwygio'r weithdrefn fel y cyfeirir at y rhai y mae gofyn iddynt fod yn rhan o'r broses yn "Grŵp Penodi Llywodraethwyr (ALl) yr Awdurdod Lleol".

Yn ogystal, i sicrhau nad yw'r broses yn cael ei hoedi os nad yw'r Prif Swyddog Addysg neu Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gael. Cynigir y diwygiad er mwyn caniatáu i gynrychiolydd gymryd rhan ar ran y naill neu'r llall.

Felly cynigir diwygio paragraff 1 y weithdrefn fel a ganlyn: Ychwanegu'r geiriau mewn teip trwm:

*"1. Y Cabinet fydd yn gwneud holl benodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol yn dilyn argymhelliad gan* ***Grŵp Penodiadau Llywodraethwyr (ALl) yr Awdurdod Lleol sy'n cynnwys*** *y Prif*

*Swyddog Addysg neu **ei gynrychiolydd,** ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes **neu ei gynrychiolydd** a cheisir barn Cynghorydd(wyr) sy'n cynrychioli'r ward(iau) yn nalgylch yr ysgol i'w chynnwys yn y broses benderfynu (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel Cynghorydd(wyr) Lleol)."*

ii) Rhan 5 "Codau a Phrotocolau".

Mae'r "Protocol Lletygarwch" i'w gael ar hyn o bryd yn y Llawlyfr i Gynghorwyr. Gan fod y protocol yn ymwneud â chynghorwyr a swyddogion, cynigir ei ddileu o'r Llawlyfr i Gynghorwyr a'i ychwanegu at Ran 5 "Codau a Phrotocolau" yng nghyfansoddiad y cyngor. Mae'r protocol wedi'i ddiwygio rhywfaint. Atodir copi o'r Protocol Lletygarwch fel Atodiad A i'r adroddiad.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu'r newidiadau i gyfansoddiad y cyngor fel y'u hamlinellir ym mharagraffau 4.5, 5.1 ac Atodiad A yr adroddiad, ynghyd ag unrhyw newidiadau o ganlyniad i hyn.

## 168. Dyddiadur Cyrff y Cyngor 2018-2019

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn amlinellu argymhellion Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018 a chyflwyno Dyddiadur Cyrff y Cyngor drafft ar gyfer 2018-2019.

Amlinellodd y diwygiadau canlynol i'r dyddiadur fel yr amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

i) **Dileu** Trefnir i'r cyngor gwrdd am 17:00 ar 27 Medi 2018
**Ychwanegu** Bydd y cyngor yn cwrdd am 17:00 ar 20 Medi 2018.

ii) **Dileu** Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd am 17:00 ar 16 Hydref 2018.
**Ychwanegu** Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd am 17:00 ar 9 Hydref 2018.

iii) **Dileu** Bydd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu yn cwrdd am 16:00 ar 14 Mehefin, 12 Gorffennaf, 9 Awst, 13 Medi, 11 Hydref, 8 Tachwedd, 13 Rhagfyr 2018 a 10 Ionawr, 14 Chwefror, 14 Mawrth, 11 Ebrill 2019.
**Ychwanegu** Bydd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu yn cwrdd am 16:00 ar 20 Mehefin, 18 Gorffennaf, 15 Awst, 19 Medi, 17 Hydref, 7 Tachwedd, 12 Rhagfyr 2018 ac 16 Ionawr, 20 Chwefror, 20 Mawrth, 17 Ebrill 2019.

iv) **Dileu** Bydd Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr yn cwrdd am 19:00 ar 17 Rhagfyr 2018.
**Ychwanegu** Bydd Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr yn cwrdd am 19:00 ar 3 Rhagfyr 2018.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canfyddiadau arolwg Amseru Cyfarfodydd y Cyngor;

2) Mabwysiadu Dyddiadur Cyrff y Cyngor drafft ar gyfer 2018-19 yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 24 Mai 2018.

## 169. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd tair ar ddeg o (1) 'Gwestiynau Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar gyfer y cwestiynau atodol.

### 2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.16 pm

**Cadeirydd**